

**Arolygiad o  
Gydymffurfiaeth â'r  
Rheoliadau Ymbelydredd  
Ïoneiddio  
(Amlygiad Meddygol)  
(Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Adran Radiotherapi /

Canolfan Ganser Rutherford De Cymru

Dyddiad arolygu: 29 a 30 Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	7
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	8
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
	Ansawdd profiad y claf .....	11
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf? .....	30
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio...	31
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	34

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd ar gyfer Canolfan Ganser Rutherford De Cymru, sy'n cael ei gweithredu gan Rutherford Cancer Centres Ltd, ar 29 a 30 Ionawr 2019. Ymwelwyd â'r ardal ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Adran Radiotherapi

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwch Swyddog Clinigol o grŵp Amlygiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017
- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Siaradodd y cleifion mewn ffordd gadarnhaol iawn am eu profiadau o ddefnyddio'r adran radiotherapi yng Nghanolfan Ganser Rutherford De Cymru.

Yn ystod trafodaethau gyda'r rheolwyr a'r staff sy'n gweithio yn yr adran, cawsom sicrwydd bod arferion o ddydd i ddydd yn ystyried gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y trefniadau hyn wedi'u cofnodi'n glir yng ngweithdrefnau ysgrifenedig ffurfiol y cyflogwr.

Roedd strwythur rheoli ar waith ac roedd llinellau adrodd clir wedi'u disgrifio a'u dangos. Gwelwyd bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith hefyd.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd
- Roedd yr adran yn lân iawn ac yn hyrwyddo preifatrwydd y cleifion.
- Rhoddwyd sicrwydd i ni fod arferion o ddydd i ddydd yn ystyried gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.
- Dangoswyd systemau llywodraethu effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn iddynt dangos y trefniadau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 yn glir.
- Mae angen eglurhad pellach ar rai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr.
- Mae'n rhaid i gofnodion sy'n dangos bod oncolegwyr ymbelydredd wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'u swyddogaethau fel gweithredwyr fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.

Nodwyd gennym achos o dorri'r rheoliad yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â chofnodion hyfforddi anghyflawn ar gyfer oncolegwyr ymbelydredd. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad gwella, disgwylir i'r darparwr gymryd camau ystyrion er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Rutherford Cancer Centres Limited yn darparu gofal a thriniaethau canser, gan gynnwys radiotherapi, mewn lleoliadau ledled Cymru a Lloegr.

Mae Canolfan Ganser Rutherford De Cymru wedi'i leoli yng Nghasnewydd ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau oncoleg, gan gynnwys radiotherapi.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Canolfan Ganser Rutherford wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel clinig annibynnol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau oncoleg preifat.

Roedd yr adran radiotherapi'n cynnig therapi pelydr proton<sup>1</sup> a thriniaethau radiotherapi<sup>2</sup> sylfaenol.

---

<sup>1</sup>Mae therapi pelydr proton yn fath o radiotherapi sy'n defnyddio pelydrau â phrotonau egni uchel, sef rhannau bach o atomau, yn hytrach na phelydrau-X egni uchel (a enwir yn "ffotonau") i drin mathau penodol o ganser.

<sup>2</sup>Mae radiotherapi'n defnyddio pelydrau egni uchel, megis pelydrau-X, i drin canser. Mae'n difa'r celloedd canser yn yr ardal lle rhoddir y driniaeth.



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Siaradodd y cleifion yn gadarnhaol iawn eu profiadau o ddefnyddio'r adran radiotherapi yng Nghanolfan Ganser Rutherford De Cymru.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd, a bod cynllun yr adran yn hyrwyddo preifatrwydd y cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaethau a gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol. Fodd bynnag, roedd angen rhoi system ar waith i ddangos bod cleifion neu eu cynrychiolwyr wedi cael gwybod am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd o amlygiadau.

Roedd trefniadau priodol ar waith i geisio barn y cleifion a gwelsom fod y gwasanaeth wedi ymateb i'r adborth a gafwyd er mwyn gwella profiad cleifion.

Cyn ein harolygiad, gofynnwyd i'r uwch aelodau o staff ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o bum holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Ardderchog. Mae'n siŵr mai hwn yw'r sefydliad meddygol mwyaf proffesiynol rwyf wedi cael y pleser o weithio ag ef"*

*"...hapus iawn hyd yma."*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gall y cleifion ofalu am eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd deunydd hybu iechyd yn cael ei arddangos yn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a bwyta'n iach. Roedd

gwybodaeth hefyd wedi'i harddangos a oedd yn cynghori cleifion i roi gwybod i'r staff am unrhyw gyflyrau meddygol roedd ganddynt.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos yn gofyn i unigolion beichiog neu a allai fod yn feichiog, neu sy'n bwydo ar y fron roi gwybod i aelod o'r staff. Cydnabuwyd y byddai'r staff yn trafod hyn gyda'r cleifion cyn iddynt ddechrau ar eu triniaeth radiotherapi. Fodd bynnag, gallai arddangos gwybodaeth fod yn nodyn atgoffa ychwanegol i'r cleifion roi gwybod i'r staff os yw eu cyflwr wedi newid, gan hyrwyddo diogelwch cleifion ymhellach a chydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o effeithiau ymbelydredd ïoneiddio ymhlith unigolion beichiog/a allai fod yn feichiog, neu sy'n bwydo ar y fron ar hyn o bryd.

### Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff sy'n gweithio yn yr adran ac yn teimlo eu bod wedi gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster eu hunain bob amser yn ystod eu hapwyntiadau. Cadarnhawyd hyn hefyd gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i neb arall glywed (e.e. mewn ystafell breifat).

Er na wnaethom arsylwi ar gleifion yn cael eu trin, gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn holi am eu lles.

Roedd amgylchedd yr adran yn hyrwyddo preifatrwydd y cleifion. Roedd mannau eistedd wedi'u trefnu er mwyn i'r cleifion allu dewis cymdeithasu â chleifion eraill neu dreulio amser mewn ardal fwy preifat. Roedd ciwbiclau newid ar gael i gleifion fel y gallent roi gynau urddas amdanynt yn breifat cyn eu triniaethau.

### Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth ac phwy y dylent gysylltu i gael cyngor am unrhyw sgil-ffeithiau cysylltiedig.

Roedd gan y cyflogwr bolisi ysgrifenedig cyfredol am ddarparu gwybodaeth i gleifion. Roedd hwn yn bolisi cyffredinol a oedd yn cwmpasu'r gwaith o lunio a fformatio amrywiaeth o wybodaeth y gellir ei darparu i gleifion. Nodwyd gennym fod amrywiaeth o daflenni am driniaethau a gofal canser ar gael yn gyfleus yn yr ardal aros i gleifion eu darllen a mynd adref gyda nhw.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod y cleifion yn cael gwybodaeth ar adeg eu hapwyntiad â'u hadolygiad cyntaf â'r oncolegydd yn y clinig i gleifion allanol. Roedd y staff radiotherapi hefyd yn mynd gyda'r oncolegydd i'r clinig i gleifion allanol ac yn cyfrannu at y wybodaeth a ddarperir i'r cleifion neu eu cynrychiolwyr.

Cadarnhaodd y staff nad oedd modd i 'ofalwyr neu gysurwyr'<sup>3</sup> sy'n ffrindiau â'r cleifion neu'n perthyn iddynt fod yn bresennol yn yr ystafelloedd triniaeth pan fyddai'r cleifion yn cael eu triniaeth radiotherapi. Roedd hwn am resymau diogelwch oherwydd y dosau lefel uchel sy'n gysylltiedig â radiotherapi. Fodd bynnag, gellid trefnu ymweliadau â'r ystafelloedd triniaeth radiotherapi yn ôl dymuniad er mwyn helpu i leddfu gorbryder.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol ar waith ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth

---

<sup>3</sup> Mae gofalwyr a chysurwyr yn unigolion a amlygir i ymbelydredd ïoneiddio yn ymwybodol ac yn fwriadol wrth gefnogi a chysuro'r rhai sy'n cael eu hamlygu iddo.

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn nodi'n glir nad yw'r unigolion sy'n cyflawni'r rôl hon yn gwneud hynny fel rhan o'u gwaith. Fel arfer mae gofalwyr a chysurwyr yn berthnasau i'r rhai sy'n cael eu hamlygu.

radiotherapi. Fodd bynnag, mae'n rhaid darparu gwybodaeth i'r cleifion neu eu cynrychiolwyr am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd a brofir. Mae hyn yn ofynnol o dan y rheoliadau ac mae'n helpu i sicrhau bod cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael gwybodaeth lawn am eu gofal a'u triniaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddangos bod y cleifion neu eu cynrychiolwyr wedi cael gwybod am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amlygiad i ymbelydredd a brofir.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion.

Roedd yn well gan bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur siarad Saesneg, a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd arwyddion yn cael eu harddangos yn y clinig er mwyn helpu'r cleifion i ganfod eu ffordd o gwmpas. Roedd desg dderbynfa ger y brif fynedfa ac roedd staff y dderbynfa ar gael i gyfarch a chyfeirio cleifion i'r adran. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei bod yn 'hawdd iawn' canfod eu ffordd i'r adran ar ôl iddynt gyrraedd yr adeilad.

Roedd yr arwyddion yn cael eu harddangos yn Saesneg yn unig. Fel gwasanaeth gofal iechyd annibynnol, nid oedd yn ofynnol i arddangos arwyddion dwyieithog.

Fodd bynnag, roedd nifer o daflenni gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel mater o drefn. Cadarnhaodd y staff hefyd fod gwasanaeth dehongli ar gael iddynt pe bai ei angen er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion.

### Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal amserol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym hefyd fod y staff wedi rhoi gwybod am faint y byddai'n debygol y byddai angen iddynt aros cyn cael eu triniaeth pan wnaethant gyrraedd y clinig.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi gorfod aros mwy na 15 munud i gael eu gweld neu i gael eu triniaeth.

## Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod systemau ar waith i geisio adborth y cleifion a'u gofalwyr am eu profiadau.

Roedd gan yr adran weithdrefn gwyno. Roedd hyn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion a wnaed a phryderon a godwyd gan y cleifion. Yn ogystal, roedd yn cynnwys manylion AGIC er mwyn i gleifion allu rhoi gwybod inni am eu pryderon.

Esboniodd uwch aelodau o'r staff bod cleifion yn cael eu gwahodd i gwblhau holiadur fel mater o drefn yn dilyn eu triniaeth er mwyn cael adborth ar eu profiadau. Gwelsom enghraifft o'r holiadur a ddefnyddir, a oedd yn holi amrywiaeth o gwestiynau i gleifion am eu profiadau. Roedd cardiau sylwadau a blwch post i'w gweld yn yr ystafell aros er mwyn i gleifion allu rhoi sylwadau ad hoc am eu hymweliadau â'r adran. Roedd trefniadau ar waith i ystyried yr adborth a gafwyd gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel y bo'n briodol.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod trefniadau ar waith i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion a oedd yn ymweld â'r adran radiotherapi.

Yn ystod trafodaethau gyda'r ddau reolwr a'r staff yn yr adran, cawsom sicrwydd bod arferion o ddydd i ddydd yn ystyried gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y trefniadau hyn wedi'u cofnodi'n glir ynd ngweithdrefnau ysgrifenedig ffurfiol y cyflogwr.

### **Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)**

#### **Dyletswyddau cyflogwr**

##### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig<sup>4</sup> i adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt gael eu hamlygu i ymbelydredd. Roedd y rhain yn cynnwys amlygiadau (peledrau-X) a gymerwyd fel rhan o gynllunio triniaeth ac amlygiadau (radiotherapi) ar gyfer triniaeth. Y nod oedd sicrhau bod y claf yn cael yr amlygiad cywir ac mae hon yn un o'r gweithdrefnau ysgrifenedig gofynnol o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Roedd y weithdrefn yn nodi'r staff hynny sy'n gyfrifol am adnabod cleifion yn gywir. Roedd disgwyl i'r staff ofyn i gleifion gadarnhau eu henw, eu dyddiad geni a'u cyfeiriad. Roedd hefyd yn disgrifio ffyrdd amgen y bydda'n rhaid i'r staff eu defnyddio pe na bai cleifion yn gallu cadarnhau eu manylion ar lafar eu

---

<sup>4</sup> CORP-RT-00-29 V.5

hunain. Dylid diweddarau'r weithdrefn hon er mwyn egluro'r hyn y dylai'r staff ei wneud pe bai angen dehonglwr.

Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd i'r staff gymryd ffotograff diweddar y gellid ei ddefnyddio i gadarnhau hunaniaeth, er mwyn hyrwyddo diogelwch y cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn i adnabod cleifion yn gywir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff wedi gofyn iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau ar eu triniaeth.

#### *Unigolion sydd mewn oed i gael plant*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig<sup>5</sup> ar gyfer holi ynglŷn â beichiogrwydd.

Y nod oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd priodol a chyson. Roedd y weithdrefn yn nodi'n glir y staff hynny a oedd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau perthnasol ac roedd yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn. Fodd bynnag, roedd y gweithdrefnau'n anghyson o ran pryd y dylid cynnal prawf gwaed a phrawf wrin er mwyn cadarnhau beichiogrwydd. Mae angen nodi'r manylion hyn yn glir.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid eu holi ynglŷn â beichiogrwydd yn unol â chanllawiau'r DU<sup>6</sup>.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau o ran y weithdrefn uchod. Roedd hi'n amlwg bod y staff yn sensitif i deimladau'r cleifion nad oedd yn bosibl iddynt feichiogi, am ba reswm bynnag.

---

<sup>5</sup> CORP-RT-00-29 V.5 a CORP-CLIN-00-12

<sup>6</sup> Canllawiau (2017) yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017

### *Amlygiadau i ddelweddu anfeddygol*

Cadarnhaodd yr uwch aelodau o'r staff nad oedd amlygiadau anfeddygol<sup>7</sup> yn cael eu cyflawni yn y clinig.

Nodwyd hyn yn glir ym mholisi cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol y cyflogwr.

### *Meini prawf atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr bolisi cyffredinol a gweithdrefnau penodol i dasgau cysylltiedig er mwyn cefnogi'r gofyniad i sicrhau bod protocolau ysgrifenedig ar waith ar gyfer pob math o ymarfer radiolegol safonol.

Er nad yw Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) yn nodi'n benodol sut y dylid cyflwyno protocolau o'r fath, mae'n arfer cyffredin i'r rhain gael eu cyflwyno fel dogfennau penodol ar gyfer y safle (anatomegol) ac argymhellwn y dylid rhoi ystyriaeth i'r dull hwn. Fodd bynnag, roedd y safleoedd anatomegol yn cael eu rhestru yn y ddogfennaeth.

Er bod safleoedd anatomegol yn cael eu rhestru, nodwyd anghysondeb o ran y drefn rhestru yn y ddogfennaeth. Os bwriedir parhau â'r dull hwn o lunio protocolau ysgrifenedig, dylid defnyddio'r un drefn ym mhob dogfen.

Roedd canllawiau cyfeirio ar gyfer triniaeth radiotherapi ar waith. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'n fuddiol i'r rhain fod yn benodol ar gyfer y safle (anatomegol) a'u bod yn cael eu cynnwys mewn protocolau clinigol penodol ar gyfer y safle.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

---

<sup>7</sup> Mae amlygu unigolion i ddelweddu anfeddygol yn cynnwys asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhai hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.



Cadarnhaodd polisi cydymffurfio â Rheoliadau ydymYmbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol y cyflogwr nad oedd amlygiadau diagnostig yn cael eu cyflawni. Felly, nid oes angen cadarnhau lefelau cyfeirio<sup>8</sup> diagnostig.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i wneud y canlynol:

- Esbonio yn y gweithdrefnau ysgrifenedig pryd y dylid cynnal prawf gwaed a phrawf wrin er mwyn cadarnhau beichiogrwydd
- Hyrwyddo cysondeb o ran rhestru safleoedd anatomegol o fewn protocolau ysgrifenedig.

### Dyletswyddau ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi'r gwahanol weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â cheisio triniaeth radiotherapi a'i darparu i gleifion, a gwahanol rolau'r gweithwyr proffesiynol hynny.

Roedd polisi cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol y cyflogwr yn nodi'r grwpiau hynny o staff a oedd yn gallu bod yn ymarferwyr<sup>9</sup>, gweithredwyr<sup>10</sup> ac atgyfeiriwr<sup>11</sup> (a elwir yn ddeiliaid

---

<sup>8</sup> Amcan lefelau cyfeirio diagnostig yw helpu i osgoi rhoi dosau gormodol o ymbelydredd i gleifion. Defnyddir lefelau cyfeirio diagnostig fel canllaw i helpu i hyrwyddo gwelliannau mewn ymarfer diogelu rhag ymbelydredd.

<sup>9</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am amlygiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau amlygiadau meddygol.

<sup>10</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae gweithredwr yn unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar amlygiad meddygol.

<sup>11</sup> O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer amlygiadau meddygol.

dyletswydd). Mae gweithdrefnau'r cyflogwr yn nodi cyfrifoldebau pob deiliad dyletswydd.

Roedd disgwyl i'r staff sy'n gweithio yn yr adran gydymffurfio â gweithdrefnau'r cyflogwr. Nodwyd hyn yn glir ym mholisi cydymffurfio cyffredinol y cyflogwr. Roedd y gweithdrefnau ar gael i'r staff yn electronig drwy system TG ddiogel. Roedd hyn yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r staff yn defnyddio gweithdrefnau a oedd 'wedi dyddio'. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y gweithdrefnau ar gael iddynt.

Disgrifiodd uwch aelodau o'r staff system ar gyfer roi gwybod i'r staff am unrhyw newidiadau i weithdrefnau'r cyflogwr. Gwnaed hyn drwy e-bost a disgwylir i'r staff gadarnhau eu bod wedi cydnabod y newidiadau drwy system botwm pleidleisio wedi'i hatodi i'r e-bost. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y broses hon ar waith.

### **Cyfiawnhau Amlygiadau Meddygol Unigol**

Roedd polisi cydymffurfio cyffredinol y cyflogwr yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau amlygiadau a'u hawdurdodi<sup>12</sup>. Roedd hyn yn nodi'n glir bod gan ymarferwyr yr hawl i gyfiawnhau amlygiadau.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion a oedd yn dangos awdurdodi (h.y. tystiolaeth o gyfiawnhau) amlygiadau.

### **Optimeiddio**

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio<sup>13</sup> amlygiadau.

Nodwyd y rhain ym mholisi cydymffurfio cyffredinol y cyflogwr, ac roeddent yn cynnwys systemau sicrhau ansawdd a rhaglenni cynnal a chadw ar gyfer offer. Yn ogystal, roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith a oedd yn ymdrin ag optimeiddio ar wahanol adegau ar lwybr gofal y claf.

---

<sup>12</sup> Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur manteision disgwylidig amlygiad yn erbyn y niwed y gallai'r amlygiad ei achosi i'r unigolyn hwnnw. Awdurdodi yw'r dystiolaeth bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd.

<sup>13</sup> Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Nod y trefniadau hyn oedd sicrhau bod dosau o ymbelydredd a roddir i gleifion a'u gofalwyr a'u cysurwyr o ganlyniad i amlygiadau mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (a elwir hefyd yn ALARP).

### *Pediatreg*

Yn unol ag amodau cofrestru ag AGIC, roedd y clinig yn gallu darparu amrywiaeth o wasanaethau oncoleg i oedolion a phlant. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff nad oedd unrhyw blant wedi cael eu trin yn yr adran radiotherapi.

Felly, ni wnaethom archwilio'r trefniadau sydd ar waith i blant.

O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), mae'n rhaid i ymarferwyr a gweithredwyr rhoi sylw manwl i amlygiadau plant. Felly, efallai y bydd y cyflogwr am fanteisio ar y cyfle i adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol, gan ystyried ein canfyddiadau, er mwyn sicrhau ei fod yn dangos y trefniadau ar gyfer darparu radiotherapi i blant yn glir.

### *Gwerthuso clinigol*

Roedd trefniadau ar waith i gynnal gwerthusiad clinigol o amlygiadau. Mae gwerthuso clinigol yn bwysig er mwyn helpu i lywio cam nesaf yng ngofal a thriniaeth y claf.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer pob rhan o lwybr gofal y claf, gan gynnwys y gwaith o gynllunio, a dilysu a'r sesiynau triniaeth.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod y staff sy'n ymwneud â thriniaeth y claf yn monitro effeithiau'r driniaeth yn rheolaidd ac yn cofnodi'r canfyddiadau yng nghofnod gofal unigol y claf.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Darparodd uwch aelodau o'r staff restr gyffredol o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn yr adran i ddarparu radiotherapi i gleifion.

Er bod hyn yn cynnwys manylion perthnasol am y cyfarpar sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), dylai'r rhestr gynnwys

eitemau eraill o gyfarpar sy'n arfer rheolaeth uniongyrchol neu sy'n dylanwadu ar raddau'r amlygiad, fel yr argymhellwyd gan ganllawiau<sup>14</sup> a luniwyd gan y Sefydliad Ffiseg a Pheirianeg mewn Meddygaeth.

Rhoddwyd gwybod i uwch aelodau o'r staff am ein canfyddiadau, a chytunwyd i ychwanegu'r eitemau ychwanegol o gyfarpar.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gynnwys darnau eraill o gyfarpar sy'n arfer rheolaeth uniongyrchol neu sy'n dylanwadu ar raddau'r amlygiad ar y rhestr cyfarpar.

## Gofal diogel

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da iawn, ac roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Roedd mynediad gwastad at brif fynedfa'r clinig ac roedd yr adran radiotherapi ar y llawr gwaelod. Roedd hyn yn galluogi cleifion ag anawsterau symudedd i ddod i mewn a gadael y clinig yn ddiogel.

Roedd yr adran yn lân iawn, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon baglu amlwg. Roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith er mwyn atal y rhai heb awdurdod rhag mynd i mewn i ystafelloedd lle roedd cyfarpar radiotherapi yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Gwelsom fod y staff rhoi pwyslais ar ddiogelwch ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelwch i'w dilyn wrth ddefnyddio'r cyfarpar.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i atal a rheoli heintiau a dihalogi.

---

<sup>14</sup>Nodiadau Canllaw Meddygol a Deintyddol. Sefydliad Ffiseg a Pheirianeg mewn Meddygaeth, 2002.

Roedd pob ardal o'r adran yn lân ac yn daclus. Eglurodd y staff fod glendid y clinig a chydymffurfiaeth staff â gweithdrefnau hylendid dwylo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Lle nodwyd diffygion, byddai'r archwiliad yn cael ei gynnal yn amlach nes bod yr adran yn cyrraedd y safonau disgwylidig a'u cynnal. Disgrifiwyd cysylltiadau effeithiol â chynghorydd rheoli atal heintiau allanol. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo cydymffurfiaeth ag arfer gorau presennol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar diogelu personol, megis menig untro, ar gael iddynt bob amser. Mae defnyddio cyfarpar diogelu personol, ynghyd â golchi dwylo effeithiol, yn bwysig er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd yr adran yn cyflogi cwmni glanhau allanol. Disgrifiwyd trefniadau effeithiol i fonitro'r gwasanaeth a ddarperir, ac i dynnu sylw at unrhyw faterion glanhau fel y gellid datrys y rhain yn gyflym.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion o ran glendid yr adran.

## **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd trefniadau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion agored i niwed.

Roedd gan yr adran bolisi diogelu ac roedd posteri'n cael eu harddangos a oedd yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau statudol eraill a allai ddarparu cyngor ar faterion yn ymwneud â diogelu.

Roedd staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau a'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryderon am les claf. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod disgwyl i staff gwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol, yn dibynnu ar eu rôl. Roedd yr hyfforddiant hwn yn rhan o raglen hyfforddi orfodol yr adran.

## **Gofal effeithiol**

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

#### *Archwiliad clinigol*

Roedd yr adran yn cynnal nifer o archwiliadau fel rhan o'r gweithgaredd gwella ansawdd cyffredinol, a darparwyd enghreifftiau o'r rhain i AGIC.

### *Cyngor arbenigol*

Penodwyd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol<sup>15</sup> i roi cyngor ar amlygiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod arbenigwyr ffiseg feddygol wedi'u penodi. Roedd polisi cydymffurfiaeth cyffredinol yr adran yn nodi rôl yr arbenigwr ffiseg feddygol, ac roedd hyn yn adlewyrchu'n fras ofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Cadarnhawyd y trefniadau hyn gan yr arbenigwr ffiseg feddygol y gwnaethom siarad ag ef yn ystod ein harolygiad hefyd.

Dywedodd staff yr adran wrthym hefyd fod modd iddynt gysylltu â'r arbenigwr ffiseg feddygol i gael cyngor.

### *Ymchwil feddygol*

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff nad oedd astudiaethau ymchwil feddygol o amlygiadau yn cael eu cynnal yn yr adran. Felly, nid oedd angen cael gweithdrefn ysgrifenedig yn ymwneud â hyn.

Nodwyd hyn yn glir ym mholisi cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol y cyflogwr.

### **Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Cafodd systemau rheoli gwybodaeth gynhwysfawr eu disgrifio a'u dangos gan staff yr adran.

Drwy'r system gwybodaeth am gleifion electronig, roedd modd cofnodi manylion perthnasol cleifion a gwybodaeth am brofion yn yr adran ac roedd staff yr adran yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd.

Hefyd, dangosodd yr uwch aelodau o'r staff systemau gwybodaeth rheoli cynhwysfawr mewn perthynas â gweithredu'r adran a'r clinig ehangach.

---

<sup>15</sup> Arbenigwr ffiseg feddygol yw person sydd â gradd mewn gwyddoniaeth neu gymhwyster sy'n cyfateb iddi ac sy'n cyfateb iddi a phrofiad o gymhwyso ffiseg at y defnydd diagnostig ac ymyriadol o ymbelydredd Ïoneiddio.

## Rheoli cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion electronig y cleifion. Gwelsom fod yr aelodau hynny o'r staff a oedd yn ymwneud â'r amlygiad wedi eu cwblhau drwy roi'r manylion priodol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd strwythur rheoli ar waith ac roedd llinellau adrodd clir wedi'u disgrifio a'u dangos. Gwelwyd bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith hefyd.

Roedd angen adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr, er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ar waith.

Dangosodd y staff fod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff perthnasol i'r radiograffwyr, gwyddonwyr clinigol ac arbenigwyr ffiseg feddygol sy'n gweithio yn yr adran. Fodd bynnag, roedd cofnodion hyfforddiant yr oncolegwyr yn anghyflawn.

### **Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Cafodd strwythur rheoli â llinellau adrodd clir ei disgrifio a'i arddangos. Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn sicrhau bod yr adran radiotherapi ac adrannau eraill yn y clinig yn gweithredu'n effeithiol.

Yn ystod yr arolygiad gwelsom arweinyddiaeth weladwy a chefnogol gan y radiograffydd arweiniol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell.

Roedd uwch reolwyr ar gael yn ystod diwrnodau'r arolygiad, yn rhoi cymorth i'r staff ac yn hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r arolygiad.

Cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi gofyn i uwch aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Y nod oedd rhoi gwybodaeth fanwl i



AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol yr adran mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno ac roedd yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, ni ddarparwyd rhai o'r polisïau allweddol ac roedd y ffordd yr oedd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i chyflwyno yn golygu nad oedd yn glir sut roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Rhoesom wybod i uwch aelodau o'r staff am ein harsylwadau er mwyn iddynt ystyried sut y gallent wella'r broses o gwblhau'r ffurflen hunanasesu ar gyfer gweithgarwch arolygu yn y dyfodol.

## **Dyletswyddau'r cyflogwr**

### *Rhoi hawl*

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer rhoi hawl i ddeiliaid dyletswydd.

Roedd oncolegwyr ymbelydredd sy'n gweithio yn yr adran ac nad oedd yr adran yn eu cyflogi'n uniongyrchol wedi cael breintiau ymarfer. Roedd polisi ar waith i nodi'r broses hon a'r broses rhoi hawl ar gyfer y grŵp o staff fel atgyfeirwyr ac ymarferwyr. Fodd bynnag, roedd angen nodi mwy o fanylion o ran y broses rhoi hawl ar gyfer oncolegwyr sy'n gweithredu fel gweithredwyr.

Gwnaeth yr uwch aelodau o'r staff ddiweddarau'r polisi cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol i egluro'r broses uchod, yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi nodi'n gliriach a oedd gan staff yr ystyrir eu bod yn gymwys i roi triniaeth hefyd yr hawl fel deiliad dyletswydd i gyflawni swyddogaeth gweithredwr neu ymarferydd ar gyfer y driniaeth honno.

Gwnaethom siarad â staff yn yr adran ac er bod staff radiograffeg a ffiseg feddygol yn gallu cadarnhau eu hawl i gyflawni swyddogaethau deiliad dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), roedd y staff oncolegwyr yn llai clir yn hyn o beth.

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i nifer o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Er bod gweithdrefnau ysgrifenedig wedi'u datblygu i'w defnyddio yn yr adran, nid oedd yn glir ar unwaith a oeddent yn bodloni'r gofynion o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Y rheswm dros hyn oedd bod yn

rhaid croesgyfeirio nifer o weithdrefnau â gweithdrefnau eraill, ac roedd y confensiwn enwi a ddefnyddiwyd yn ei gwneud hi'n anodd nodi'r gweithdrefnau hynny sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Yn ogystal, roedd rhai gweithdrefnau ysgrifenedig yn cyfeirio at reoliadau (2000) blaenorol, sydd wedi dyddio. Mae angen diweddarau'r rhain i adlewyrchu'r rheoliadau cyfredol (2017).

Wrth sgwrsio â'r uwch aelodau o'r staff, cawsom sicrwydd bod yr ymarfer yn yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) a bod triniaeth radiotherapi'n cael ei rhoi mewn ffordd ddiogel.

Roedd uwch aelodau o'r staff yn barod i dderbyn ein hadborth ynghylch gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr. Cyn diwedd yr arolygiad, gwnaed trefniadau i ddechrau adolygu polisi cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) y cyflogwr er mwyn sicrhau ei fod yn dangos yn gliriach y trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol), gan gynnwys gwella arwyddion a nodi'r gweithdrefnau ysgrifenedig hynny sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

Yn ogystal, roedd angen ychwanegu rhagor o fanylion at rai o'r gweithdrefnau ysgrifenedig er mwyn rhoi eglurder (gweler yr adran flaenorol - Darparu gofal diogel ac effeithiol).

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i wneud y canlynol:

- Egluro'r trefniadau ar gyfer hyfforddi oncolegwyr a rhoi'r hawl iddynt weithredu fel gweithredwyr
- Nodi'n glir p'un a oes gan aelodau o staff yr ystyrir eu bod yn gymwys i roi triniaeth hefyd yr hawl fel deiliad dyletswydd i gyflawni swyddogaeth gweithredwr neu ymarferydd ar gyfer y driniaeth honno
- Sicrhau bod oncolegwyr ymbelydredd yn ymwybodol o'u hawl o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) i gyflawni swyddogaethau deiliad dyletswydd
- Adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ar waith. Rhaid ystyried diweddarau'r cyfeiriadau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i reoliadau a chanllawiau

cyfredol.

## **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

### *Hysbysiadau o ddigwyddiadau*

Roedd system ar waith ar gyfer rhoi gwybod am amlygiadau damweiniol neu anfwriadol yn yr adran ac ymchwilio iddynt.

Roedd polisi ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt wedi cael ei ddatblygu. Roedd hyn yn ystyried pob math o ddigwyddiad, nid dim ond y rhai cofnodadwy o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol). Roedd polisi cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) cyffredinol yn rhoi mwy o fanylion a oedd yn benodol i'r mathau o amlygiadau damweiniol neu anfwriadol y mae'n rhaid rhoi gwybod i AGIC amdanynt.

Roedd y polisi'n nodi gweithdrefn y dylai'r staff ei dilyn os oeddent yn amau bod amlygiad damweiniol neu anfwriadol wedi digwydd. Fodd bynnag, dylid adolygu'r polisi er mwyn sicrhau bod y mathau o ddigwyddiadau radiotherapi y mae angen rhoi gwybod amdanynt yn gyson â'r rhai a restrir yn y polisi cydymffurfio cyffredinol. Yn benodol, mewn perthynas â chleifion sy'n derbyn dosau radiotherapi sy'n sylweddol is na'r disgwyl, a'r rhai sy'n gysylltiedig ag offer sy'n methu.

### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddiweddarau'r polisi ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio at y mathau o ddigwyddiadau radiotherapi y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Yn ystod ein harolygiad, dangosodd y staff fod ganddynt y sgiliau priodol a chadarnhawyd eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu priodolau yn yr adran.

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith ar gyfer nodi ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr a rhoi hawl iddynt.

Disgrifiodd uwch aelodau o'r staff broses sefydlu ar gyfer staff newydd, gan roi tystiolaeth o hyn.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant i'r staff a oedd yn gweithio yn yr adran. Roedd y rhain yn cael eu cadw'n electronig, a gwelsom gofnodion hyfforddi a chymhwysedd y radiograffwyr a'r staff ffiseg feddygol. Roedd y rhain yn cynnwys cwmpas ymarfer unigolion.

Roedd cofnodion hyfforddi'r oncolegwyr yn anghyflawn, ac nid oeddent yn dangos bod oncolegwyr ymbelydredd wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r swyddogaethau y maent yn eu cyflawni fel gweithredwyr. Roedd angen mynd i'r afael â'r mater hwn.

Trafodwyd cyfleoedd i wella'r cofnodion hyfforddi gydag uwch aelodau o'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys gofyn i'r staff gofnodi eu bod wedi cyflawni hyfforddiant, eu bod wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol lleol ac y byddent yn cydymffurfio â nhw. Gellid hefyd ychwanegu pryd y cafwyd hyfforddiant gloywi. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd lle mae'n anodd cynnal cymhwysedd (e.e. mae nifer y cleifion sy'n cael eu trin yn isel). Byddai'r dull hwn yn dangos pryd y cwblhawyd hyfforddiant gloywi.

Cadarnhaodd y staff radiograffeg fod digon o hyfforddiant ar gael iddynt, a bod yr uwch aelodau o'r staff yn eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus yn y maes gwaith o'u dewis.

Gwelsom ei bod yn ofynnol i'r staff gyflawni amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol fel rhan o raglen hyfforddi orfodol y sefydliad.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cofnodion sy'n dangos bod oncolegwyr ymbelydredd wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â swyddogaethau gweithredu a gyflawnir ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon am ddiogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad gwella a/neu [hysbysiad o ddiffyg](#)

[cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad gwella a/neu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd ([2018](#))

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag amlygiad anfwriadol, gormodol neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig ag amlygiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Mae gwasanaethau yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch Swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol.	-	-	-

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Canolfan Ganser Rutherford De Cymru

### Ward/adran: Yr Adran Radiotherapi

### Dyddiad arolygu: 29 a 30 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o effeithiau ymbelydredd ìoneiddio ymhlith y rheini sy'n feichiog/a allai fod yn feichiog neu sy'n bwydo ar y fron ar hyn o bryd.	Rheoliad 6(8)	Cafodd y wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd i'r rheini a allai fod yn feichiog/sy'n feichiog a/neu sy'n bwydo ar y fron ei hadolygu a'i diweddarau (Y weithdrefn ar gyfer beichiogrwydd a ffurflen ddatganiad - rhoddir copi i'r claf) ac mae posterï'n cael eu creu i'w harddangos mewn ardaloedd penodol megis cefn yr ystafelloedd newid. Caiff gwybodaeth hefyd ei harddangos ar	Y Prif Radiograffydd Therapi	14 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sgriniau digidol yn yr ardaloedd aros		
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddangos bod cleifion neu eu cynrychiolwyr wedi cael gwybod am y buddiannau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ddogn ymbelydredd a brofir.</p>	<p>Rheoliad 6 (Atodlen 2(1)(i))</p>	<p>Mae'r broses bresennol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddir copi o'r ffurflen gydsyniad benodol ar gyfer y safle i'r cleifion sy'n egluro buddiannau a risgiau'r driniaeth radiotherapi.</li> <li>• Rhoddir cydsyniad gan ddefnyddio ffurflenni cydsyniad penodol ar gyfer y safle sy'n cynnwys esboniad llawn o fuddiannau a risgiau'r driniaeth.</li> <li>• Rhoddir taflenni gwybodaeth i gleifion i'r cleifion hefyd (e.e. Macmillan) sy'n esbonio buddiannau a risgiau'r driniaeth.</li> </ul> <p>Hyd yn hyn, nid oedd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r sgan cynllunio CT wedi cael eu disgrifio ar wahân. Bellach caiff hyn ei ddisgrifio ar wahân ar y ffurflen gydsyniad, ac yn ystod y broses gydsynio, a chaiff y dogfennau polisi a'r weithdrefn eu diweddarau i adlewyrchu</p>	<p>Y Prif Radiograffydd Therapi</p>	<p>14 Mehefin 2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyn.		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i:</p> <p>Esbonio yn y gweithdrefnau ysgrifenedig pryd y dylid cynnal prawf gwaed a phrawf wrin er mwyn cadarnhau beichiogrwydd</p>	Rheoliad 6 (Atodlen 2(1)(c))	Mae'r weithdrefn yn cael ei diweddarau.	Y Prif Radiograffydd Therapi	14 Mehefin 2019
<p>Hyrwyddo cysondeb o ran rhestru safleoedd anatomegol o fewn protocolau ysgrifenedig.</p>	Rheoliad 6(4)	Mae protocolau clinigol y cyflogwr wedi'u trefnu'n ddogfennau gweithdrefn tasg-benodol sy'n cynnwys manylion clinigol ar gyfer safleoedd anatomegol penodol ar gyfer y dasg honno. Bydd y cyflogwr yn diweddarau'r dogfennau gweithdrefn tasg-benodol er mwyn sicrhau bod y manylion ar gyfer safleoedd anatomegol penodol yn fwy cyson (h.y. cyfeirio at yr un safleoedd anatomegol yn yr un drefn ym mhob dogfen tasg-benodol).	Y Prif Radiograffydd Therapi	14 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gynnwys darnau eraill o gyfarpar sy'n arfer rheolaeth uniongyrchol neu sy'n dylanwadu ar raddau'r amlygiad ar y rhestr cyfarpar.</p>	Rheoliad 15	Mae'r gofrestr cyfarpar radiotherapi yn cael ei diweddarau er mwyn ychwanegu'r cyfarpar ychwanegol.	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i:</p> <p>Egluro'r trefniadau ar gyfer hyfforddi oncolegwyr a rhoi'r hawl iddynt weithredu fel gweithredwyr</p>	Rheoliad 17	<p>Dim ond ar y system cynllunio triniaethau (TPS) y mae gan oncolegwyr yr hawl i weithredu fel gweithredwyr. Ar hyn o bryd, maent yn cael yr hyfforddiant canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Hyfforddiant sefydlu ar y TPS pan fyddant yn ymweld â'r ganolfan cyn gwneud eu hatgyfeiriad cyntaf. Yn ystod yr hyfforddiant sefydlu hwn, byddant yn cwblhau ffurflenni RT/arbenigeddau proton;</li> <li>2) byddant yn cael cymorth/goruchwyliaeth wrth gynnal gwaith amlinellu neu</li> </ol>	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gynllunio adolygiadau ar eu cleifion hyd nes yr ystyrir eu bod yn gymwys i ymgymryd â'r tasgau hynny ar y TPS ar eu pen eu hunain.</p> <p>Nododd yr arolygydd na chaiff yr hyfforddiant hwn ei gofnodi'n ffurfiol.</p> <p>Caiff yr hyfforddiant sefydlu TPS ei ychwanegu at y ffurflenni RT/arbenigeddau proton a bydd y ffurflenni yn annog yr unigolyn sy'n eu cwblhau i ychwanegu'r Meddyg Ymgynghorol ar y gofrestr o feddygon ymgynghorol sydd wedi cael hyfforddiant TPS. Caiff yr hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant dilynol wedi'i oruchwyllo a'r broses cymeradwyo cymhwysedd eu cofnodi ar y gofrestr honno.</p>		
Egluro p'un a oes gan aelodau o staff yr ystyrir eu bod yn gymwys i gyflawni gweithdrefn hefyd yr hawl fel deiliad dyletswydd i gyflawni swyddogaeth	Rheoliad 6 (Atodlen 2(1)(b))	Mae'r Polisi Radiotherapi yn nodi bod gan Oncolegwyr y rhoddwyd Breintiau Ymarfer (PP) iddynt yr hawl i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr a	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gweithredwr neu ymarferydd ar gyfer y weithdrefn honno.		<p>gweithredwyr ac yn nodi'r canlynol:</p> <p>“Mae Cofrestr Cymhwysedd (CORP-RT-00-10) ar waith sy'n nodi manylion ac yn cofnodi'r aelodau o staff yng Nghanolfan Ganser Rutherford sy'n gweithredu fel gweithredwyr yn ystod llwybr y claf.”</p> <p>Caiff datganiad ei ychwanegu i egluro na all staff y Ganolfan weithredu fel ymarferwyr neu atgyfeirwyr.</p> <p>Mae'r Gofrestr Cymhwysedd Staff Radiotherapi yn cofnodi pob aelod o staff a gymeradwywyd fel staff sy'n gymwys i ymgymryd â'r tasgau penodedig ac mae'n nodi bod y staff a restrir wedi'u hawdurdodi a bod ganddynt hawl ('entitled' yn Saesneg) i weithredu fel gweithredwyr ('operators') (IRMER) ar gyfer y tasgau penodedig y'u cymeradwywyd fel staff cymwys ar eu cyfer. Mae'r gofrestr yn dynodi pwy y caniateir iddynt gymeradwyo staff fel staff cymwys (e.e. Y Prif Radiograffydd), caiff datganiad yn nodi eu bod yn rhoi'r hawl i'r aelod o staff weithredu fel deiliad</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dyletswydd ei ychwanegu.		
Sicrhau bod oncolegwyr ymbelydredd yn ymwybodol o'u hawl o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) i ymgymryd â swyddogaethau deiliad dyletswydd	Rheoliad 6 Atodlen 2(1)(b))	<p>Caiff neges e-bost ei hanfon at bob Meddyg Ymgynghorol presennol er mwyn cadarnhau eu hawl/eu hatgoffa o'u hawl.</p> <p>Mae gan feddygon ymgynghorol y rhoddwyd Breintiau Ymarfer (PP) iddynt yr hawl i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar gyfer eu harbenigeddau a chaiff hyn ei gofnodi ar y Gofrestr Meddygon Ymgynghorol. Yn flaenorol, roedd yn datgan eu bod wedi'u dynodi ('designated' yn Saesneg) fel atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr ar gyfer yr arbenigeddau a restrwyd ar eu cyfer ond caiff y gair 'designated' ei newid i 'authorised and entitled'.</p> <p>Cyn rhoi Breintiau Ymarfer i'r Meddygon Ymgynghorol, rhoddir hyfforddiant sefydlu iddynt gyda'r staff clinigol ar y safle a chaiff ffurflen RT/arbenigeddau proton ei chwblhau yn ystod yr</p>	<p>Y Prif Radiograffydd Therapi</p> <p>Pennaeth Safonau Proffesiynol</p>	<p>14 Mehefin 2019</p> <p>14 Mehefin 2019</p>



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyfforddiant sefydlu hwn. Caiff y ffurflen hon ei newid i ddatgan yn benodol (unwaith y rhoddir Breintiau Ymarfer) bod ganddynt yr hawl i weithredu fel ymarferwyr, atgyfeirwyr a gweithredwyr ar gyfer eu harbenigeddau clinigol ac y cânt weld y gofrestr yn ystod eu hyfforddiant sefydlu.		
Adolygu gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ar waith. Rhaid ystyried diweddarau'r cyfeiriadau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i reoliadau a chanllawiau cyfredol.	Rheoliad 6 (Atodlen 2)	Caiff polisi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) ei ddiweddarau er mwyn nodi pob rheoliad a manylyn o'r rheoliadau presennol, ac er mwyn nodi ble y gellir dod o hyd i'r manylion a'r gofynion ar gyfer pob rheoliad ym mholisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr.	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i ddiweddarau'r polisi ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio at y mathau o ddigwyddiadau radiotherapi y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt o dan y Rheoliadau Ymbelydredd	Rheoliad 8	Er mwyn sicrhau bod polisi'r Rheoliadau a'r Polisi Digwyddiadau yn gyson.	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol).				
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod cofnodion sy'n dangos bod oncolegwyr ymbelydredd wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r swyddogaethau y maent yn eu cyflawni fel gweithredwyr ar gael i'w harchwilio gan AGIC ar gais.	Rheoliad 17(4)	Mae'r cofnodion hyfforddi i oncolegwyr radiotherapi weithredu fel 'gweithredwyr' y system cynllunio triniaeth yn cael eu diwygio fel y disgrifiwyd yn adran flaenorol y ffurflen hon.	Prif Ffisegydd	14 Mehefin 2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Kate Leaver

**Swydd:** Y Prif Radiograffydd Therapi

**Dyddiad:** 10 Mai 2019